Rhif: WG31243

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newidiadau i amlder cyhoeddi allbynnau ystadegol Cymorth i Brynu – Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 24 Mai 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar: Newidiadau i amlder cyhoeddi allbynnau ystadegol Cymorth i Brynu – Cymru.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân (mewn fformat Excel). Gellir ei hanfon ar e-bost i ystadegau.tai@wales.gsi.gov.uk neu ei phostio i

Judith David
Ystadegau Tai
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Judy David

E-bost: ystadegau.tai@cymru.gsi.gov.uk

Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 029 2082 5050

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael

eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cefndir

Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn gynllun benthyciad ecwiti a rennir sydd wedi'i lunio i gefnogi perchentyaeth, sbarduno gweithgarwch adeiladu a rhoi hwb i'r sector tai a'r economi ehangach. O dan y cynllun, mae benthyciadau ar gael i brynwyr sydd am brynu eiddo sydd newydd ei adeiladu gwerth hyd at £300,000. Mae cefnogaeth Cymorth i Brynu - Cymru ar gael i bawb sy'n prynu tŷ (nid prynwyr tro cyntaf yn unig) sydd am brynu cartref newydd, ond sydd wedi'u cyfyngu rhag gallu gwneud hynny o bosibl - er enghraifft, o ganlyniad i ofynion blaendal - ond y gellid disgwyl iddynt ad-dalu eu morgais fel arall. Mae benthyciad ecwiti a rennir o hyd at uchafswm o 20 y cant o bris prynu'r eiddo ar gael. Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i brynwyr ddarparu blaendal o 5 y cant ac yna bydd angen sicrhau morgais i dalu'r gweddill. Mae pob adeiladwr (o bob maint) yn gallu cofrestru â'r cynllun a gwerthu eiddo drwy'r fenter.

Yn dilyn yr ymrwymiad cychwynnol o £170 miliwn, ar 10 Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn buddsoddi hyd at £290 miliwn pellach yn ail gyfnod Cymorth i Brynu – Cymru. Rhwng 2016 – 2021, bydd y cyllid ychwanegol yn ceisio cefnogi'r gwaith o adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi newydd pellach yng Nghymru.

Cesglir yr holl ddata sy'n gysylltiedig â'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru gan Help to Buy (Wales) Ltd, sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun.

Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â chynlluniau Cymorth i Brynu - Cymru yn cael ei dal yn ddiogel ar System Rheoli Cysylltiadau Cleientiaid (CRM) Help to Buy (Wales) Ltd. Mae'n cael ei mewnbynnu gan staff prosesu Help to Buy (Wales) Ltd. Darperir yr holl wybodaeth a gedwir ar y CRM, mewn perthynas ag eiddo Cymorth i Brynu - Cymru, gan y prynwyr neu eu cyfreithwyr/trawsgludwyr fel rhan o'r Ffurflen Gwybodaeth Eiddo, Ffurflen Trawsgludwr 1 neu Ffurflen Trawsgludwr 2. Mae rhagor o wybodaeth am y broses i brynwyr, a'r dogfennau sydd angen iddynt eu cwblhau i dderbyn benthyciad ecwiti a rennir, ar gael ar wefan y cynllun: http://helptobuywales.co.uk/how-it-works/?lang=cy

Mae'r data a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru yn cael ei dynnu o System Rheoli Cysylltiadau Cleientiaid (CRM) Help to Buy (Wales) Ltd bob mis ac yn cael ei lawrlwytho drwy wefan trosglwyddo ffeiliau Afon sy'n cynnig dull diogel o drosglwyddo data. Ar ôl tynnu data allan at ddibenion llunio'r datganiad ystadegol hwn, mae ansawdd y data yn cael ei sicrhau drwy wirio cofnodion unigol sy'n rhagori ar oddefiannau penodol, e.e. lefelau incwm prynwyr, ac adolygiadau 'hapwirio'. Yna caiff y data ei agregu cyn ei gyhoeddi ar StatsCymru. Ni chyhoeddir unrhyw wybodaeth allai ddatgelu unigolyn, ac mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu hunaniaeth unigolion.

Lledaenu

Mae data sy'n ymwneud â Chynllun Benthyciadau Ecwiti a Rennir Cymorth i Brynu - Cymru yn cael ei gyhoeddi ar StatsCymru bob mis, gan gwmpasu gweithgarwch ar lefel awdurdod lleol unigol ar gyfer y mis blaenorol. Mae'r wybodaeth a gyhoeddir bob mis yn cynnwys nifer yr eiddo a brynir yn ystod y cyfnod adrodd a hefyd y cyfanswm cronnus ar gyfer y cynllun cyfan, ynghyd â chyfartaledd pris yr eiddo a brynir a gwerth benthyciadau ecwiti cymedrig.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi Pennawd Ystadegol ym mhob chwarter, sy'n cyflwyno gwybodaeth gryno sy'n cynnwys gweithgarwch y cynllun yn y tri mis diwethaf, a datganiad blynyddol ym mis Ebrill bob blwyddyn sy'n darparu dadansoddiad manwl o'r cynllun ar lefel Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae'r datganiad blynyddol diweddaraf ar gyfer 2015-16 a'r pennawd chwarterol diweddaraf ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr 2016 ar gael yn y ddolen ganlynol: http://llyw.cymru/statistics-and-research/help-to-buy-wales-shared-equity-loan-scheme/?lang=cy

Mae'r set ddata lawn ar gael yn StatsCymru ac yn y ddolen ganlynol:

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Help-To-Buy

Materion
Mae cyhoeddi'n fisol yn defnyddio llawer o adnoddau, o ran staff Help to Buy (Wales) Ltd a thîm casglu data Llywodraeth Cymru.

Oherwydd y gall y diweddariadau misol fod yn anwadal, dim ond i ryw raddau y gellir eu defnyddio i asesu cynnydd gyda'r cynllun o gymharu â'r wybodaeth a gyhoeddir bob chwarter a bob blwyddyn.

Byddai atal yr allbynnau misol Cymorth i Brynu ar wefan StatsCymru yn sicrhau bod yr allbynnau a gyhoeddir yn gyson â'r ystadegau eraill a gyhoeddir ar y cyflenwad Tai sydd naill ai bob chwarter, fel yn achos Adeiladu Tai Newydd, neu bob blwyddyn, fel yn achos Darpariaeth Tai Fforddiadwy Ychwanegol..

Cynnig
Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn defnyddwyr ar gynigion i leihau pa mor aml y cyhoeddir gwybodaeth ystadegol ar Gynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir Help to Buy Wales Ltd (o fisol i chwarterol). Gellid gweithredu hyn o fis Mehefin 2017 ymlaen.

Y dystiolaeth dros newid
Byddai'r newid a amlinellir uchod yn ysgafnhau'r baich ar staff yn Llywodraeth Cymru a Help to Buy Wales Ltd heb effeithio'n niweidiol ar ba mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer monitro cynnydd y cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod yr allbynnau a gyhoeddir yn gyson ag ystadegau eraill a gyhoeddir ar y cyflenwad Tai. Byddai'n rhyddhau adnoddau o fewn Help to Buy Wales Ltd a Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso darpariaeth fwy amserol a dadansoddiad manylach o'r data chwarterol a'r data blynyddol ar Cymorth i Brynu - Cymru.

Cwestiynau penodol yr ymgynghoriad:

- *Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi diweddariad misol Cymorth i Brynu – Cymru ar StatsCymru o fis Mai 2017 ymlaen?*
- *Beth yw eich rhesymau am hyn, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai'r newid hwn ei chael ar eich gwaith?*

Bydd crynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn llywio ein penderfyniad o ran a ellir rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Mae hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol sy'n nodi bod ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr yn hollbwysig o ran medru ymddiried mewn ystadegau a sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd.

Gan mai ymgynghoriad ystadegol yw hwn, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Y Prif Ystadegydd yw Pennaeth y Proffesiwn ar gyfer ystadegau yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Cod Ymarfer ar Ystadegau Swyddogol yn nodi bod gan y Prif Ystadegydd gyfrifoldeb llwyr am benderfynu ar ddulliau ystadegol, safonau a gweithdrefnau, ac ar gynnwys ac amseriad datganiadau ystadegol.

Os cytunir ar y cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi diweddariadau misol ar wybodaeth Cymorth i Brynu - Cymru yn StatsCymru o fis Mehefin 2017 ymlaen.